# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb CCAUC Rhagfyr 2007-2009

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | | **Ymgyrraedd yn Ehangach: sicrhau cyfranogiad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi** | | | | | | |
| 1.1 | Sicrhau bod y sector yn cymryd anabledd a hil i ystyriaeth wrth weithredu ei bolisïau ehangu mynediad (EM) a chynigion Ymgyrraedd yn Ehangach (YE). | Y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu (PDA)* i gymryd data'n ymwneud â chydraddoldeb i ystyriaeth er mwyn helpu'r Cyngor a'r sector i ehangu mynediad i'r gyfundrefn addysg a chefnogi myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. **Mae'n bosibl yr ailenwir y pwyllgor hwn cyn bo hir.* | ■ | | ■ | Uwch Reolwr Ehangu Mynediad / Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Parhaus | (i) Mae papurau EM i'r PDA ym Mawrth a Mehefin 2009 yn cynnwys cyfeiriadau at grwpiau targed *Ymgeisio'n Uwch* gan gynnwys myfyrwyr anabl a grwpiau DELI (BME).<br><br>(ii) Mae llythyr cylch gwaith CCAUC (Ebrill 2009) yn gofyn bod gwaith yn cael ei wneud ar y rhwystrau i AU a wynebir gan geiswyr lloches a ffoaduriaid. (Mae'r gwaith hwn wedi'i amserlennu yng |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | nghynllun gweithredol CCAUC.)<br>(iii) Mae'r Uwch Reolwr Polisi YE yn aelod o, ac yn cael ei hysbysu gan, grŵp (sector) C ac A CCAUC. |
| 1.2 | Sicrhau bod y sector yn cymryd anabledd a hil i ystyriaeth wrth weithredu ei bolisïau ehangu mynediad (EM) a chynigion Ymgyrraedd yn Ehangach (YE). | Monitro gweithgaredd ehangu mynediad gan gynnwys y cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi gweithredoedd yn ymwneud â recriwtio o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol a recriwtio pobl anabl. | ■ | | ■ | Uwch Reolwr Ehangu Mynediad / Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Mae'r strat-egaethau'n cwmpasu'r cyfnod 2006/07 hyd 2009/10 a chânt eu rholio ymlaen i 2010/11 i gymryd canlyniadau Ymgeisio'n Uwch a chasgliadau adolygiad yr AAU i ystyriaeth. | (i) Ymgymerir â gwaith EM a YE yn ystod y broses Datganiad Monitro Blynyddol.<br>(ii) Mae adolygiad presennol yr AAU o strategaethau EM a chynigion YE yn rhoi sylw penodol i faterion yn ymwneud â C ac A. |
| 1.3 | Sicrhau bod y sector yn cymryd anabledd a hil i ystyriaeth wrth weithredu ei bolisïau ehangu mynediad (EM) a chynigion Ymgyrraedd yn | Cylchlythyron cyllido Ymgyrraedd yn Ehangach (YE) ar gyfer y cyfnod 2008 hyd 2010 i gynnwys arweiniad ar osod targedau ar gyfer gwaith gyda myfyrwyr anabl. | ■ | | | Uwch Reolwr Ehangu Mynediad | I'w gyflawni a'i fonitro drwy'r broses Datganiad Monitro Blynyddol | (i) Cyfrannwyd at gynllun gweithredu drafft 2009-10 CCAUC ac yn disgwyl cyfarwyddyd y Cyngor ar |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ehangach (YE). | | | | | | | weithredu arfaethedig i fwrw ymlaen â'r cynllun a'r arweiniad yn y llythyr cylch gwaith.<br>(ii) Bydd cyfarfod Mehefin 2009 y PDA* yn ystyried sut y bydd EM yn datblygu y tu hwnt i 2010. |
| 1.4 | Sicrhau bod polisi ehangu mynediad CCAUC yn cefnogi gwaith y sefydliadau sy'n ymwneud â chadw myfyrwyr, gan gynnwys cymryd materion cydraddoldeb i ystyriaeth. | Y Pwyllgor Ehangu Mynediad.<br>Parhau i weithredu i helpu'r sector i wella cadw myfyrwyr, gan gynnwys ymateb i'r arweiniad yn llythyr cylch gwaith 2009/10; datblygu cynlluniau cychwynnol i helpu'r sector i wella cadw myfyrwyr, gan gymryd materion cydraddoldeb i ystyriaeth. | ■ | | ■ | Uwch Reolwr Ehangu Mynediad | Parhaus | Cyfarfod y PEM<br>(i) Mae llythyr grant 2009/10 i'r AAU yn cynnwys digwyddiad yn ymwneud â chadw. Mae'r digwyddiad yn cael ei gynllunio gyda'r AAU.<br>(ii) Bydd cyfarfod Mehefin 2009 o'r PDA* yn ystyried materion yn ymwneud â chadw, gan gynnwys y goblygiadau o ran cydraddoldebau.<br>(iii) Trafod â chadeirydd |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | AMOSSHE i baratoi ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd rhwng CCAUC ac AMOSSHE (Mai). |
| 1.5 | Lledaenu arfer da ym maes cydraddoldeb ar draws y partneriaethau YE. | Prosiect DELI Cymru gyfan wedi'i arwain gan Bartneriaeth YE De Orllewin Cymru i gael ei ymgorffori yn holl ddarpariaeth y Bartneriaeth o Fedi 2008, gan gynnwys rhannu arfer da. | | | ■ | Uwch Reolwr Ehangu Mynediad | Parhaus | Mae adolygiad yr AAU o'r broses EM / YE yn cynnwys materion yn ymwneud â C ac A a bydd yn cynnwys canlyniadau ar gyfer C ac A yn benodol. Mae cynllunio ar gyfer y digwyddiad lledaenu wedi dechrau. |
| **2** | | **Y 'Fargen i Fyfyrwyr': sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf** | | | | | | |
| 2.1 | Cyfrannu at y broses fonitro mewn perthynas â materion sy'n berthnasol i gydraddoldeb ym meysydd dysgu ac addysgu. | Data i gael eu monitro a'u cyhoeddi ar berfformiad myfyrwyr ym meysydd dysgu ac addysgu. | ■ | ■ | ■ | Dadansodd-ydd Ystadegol | Mai 2008 a Mai 2009 | Mae data am fyfyrwyr a staff ar gyfer 2006/07 a 2007/08 wedi cael eu casglu at ddibenion monitro a'u trafod yn fewnol. Bydd data 2006/07 a gyhoeddwyd ar |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | wefan CCAUC yn cael eu diweddaru gyda data 2007/08 cyn bo hir. |
| 2.2 | Helpu sefydliadau i integreiddio materion cydraddoldeb i'w strategaethau dysgu ac addysgu. | Cynnwys arweiniad penodol ar faterion cydraddoldeb o fewn strategaethau dysgu ac addysgu. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu | Ionawr 2008 | Cyflawnwyd - rhoddwyd adborth i'r sefydliadau. |
| 2.3 | Gwneud sefydliadau'n fwy ymwybodol o sut y mae materion cydraddoldeb yn effeithio ar ddysgu ac addysgu. | Cysylltu â Chydlynydd Anabledd ac Amrywiaeth CCAUC; defnyddio adnoddau'r Academi Addysg Uwch, gan gynnwys cyfeirio at faterion cydraddoldeb mewn seminar ar strategaethau dysgu ac addysgu. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu | Rhagfyr 2008 | Cyflawnwyd - rhoddodd y seminar ar strategaethau dysgu ac addysgu sylw i faterion cydraddoldeb; bu cysylltu ag Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CCAUC gan gynnwys mewn perthynas â gweithredu'n codi o waith yn y DU ar ryw, hil ac ennill graddau. |
| **3** | | **Ymchwil Rhagorol: sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r** | | | | | | |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol** | | | | | | |
| 3.1 | Sicrhau bod y dull newydd o asesu ymchwil sy'n seiliedig ar fetrigau (y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil) yn rhoi sylw priodol i faterion cyfle cyfartal. | Fel rhan o'r broses ddatblygu, bydd cyrff cyllido AU y DU yn ymgymryd ag asesiad effaith o'r trefniadau newydd, a fydd yn cynnwys ystyried y goblygiadau ar gyfer cyfle cyfartal. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Ymchwil | Awst 2009 | Mae'r asesiad effaith wedi cael ei gynnwys yn y cynlluniau a'r amserlen ar gyfer y gwaith datblygu. |
| **4** | | **Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas: sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol** | | | | | | |
| 4.1 | Sicrhau bod y sefydliadau'n cymryd anabledd, hil a rhyw i ystyriaeth wrth ddatblygu a gweithredu eu strategaethau trydedd genhadaeth. | Strategaethau Trydedd Genhadaeth: gofynnodd cylchlythyr W07/18HE a gyhoeddwyd ym mis Mai 2007 i SAUau ystyried sut y bydd eu strategaethau'n ymdrin ag anghenion grwpiau a all fod o dan anfantais (mewn perthynas â hil, rhyw, anabledd ac oedran, gan gynnwys trefniadau monitro). | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Ewropeaidd / Rhyngwladol / Uwch Reolwr Datblygu Economaidd | Mae'r strat-egaethau'n cwmpasu'r cyfnod 2007/08 hyd 2009/10. | Dadansoddwyd strategaethau yn erbyn y gofynion hyn. Mae'r holl sefydliadau wedi cadarnhau bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle. |
| 4.2 | Sicrhau bod GO Wales yn ymateb yn briodol i | Gan drafod gyda WEFO a LICC, sicrhau bod | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Rhaglen | Rhagfyr 2009 | Mae cyfle cyfartal yn thema |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | faterion yn ymwneud â chyflogadwyedd cleientiaid o grwpiau ethnig lleiafrifol. | datblygu'r cynllun busnes ar gyfer rhan 5 o GO Wales yn cynnwys dangosyddion perfformiad priodol ar gyfer cleientiaid o grwpiau lleiafrifol sy'n ymgymryd ag AU. | | | | GO Wales | | drawsbynciol ar gyfer cyllido strwythurol 2007-13, ac mae cynllun busnes wedi cael ei gymeradwyo gan WEFO sy'n adlewyrchu'n foddhaol bwysigrwydd y thema allweddol hon. Rydym wedi gosod targedau ar gyfer cyfranogwyr DELI yn GO Wales, a gaiff eu monitro. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio targedau yn sgil penderfyniad WEFO i beidio â chaniatáu i fyfyrwyr o'r tu allan i'r UE gymryd rhan yn y Rhaglen |
| 4.3 | Datblygu gwelliannau yng nghyflogadwyedd a chyflogaeth graddedigion o grwpiau lleiafrifol. | Sicrhau bod camau a gymerir i weithredu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yn rhoi sylw penodol i faterion cydraddoldeb. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Datblygu Economaidd | I'w benderfynu yn unol ag amserlen LICC ar gyfer gweithredu *Sgiliau sy'n* | Parhaus |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | *Gweithio i Gymru*. | |
| 4.4 | Deall yn well sut y mae cleientiaid DELI yn defnyddio'r rhaglen GO Wales a mynd i'r afael ag unrhyw anfantais a ddarganfyddir. | Annog gwasanaethau gyrfaoedd SAUau i barhau i ddatblygu eu perthynas ag AWEMA i hybu buddiannau AU priodol. | | | ■ | Rheolwr Rhaglen GO Wales | Rhagfyr 2009 | Dechreuodd y Rhaglen GO Wales newydd ar 1 Ionawr 2009, a byddwn yn casglu data am ethnigedd ar gyfer cyfranogwyr unigol. Bydd modd croes-dablu hyn â'r math o wasanaethau a gyrchir gan unigolion, ac ystyried unrhyw gamau cywiro y mae angen eu cymryd megis dulliau marchnata i gyrraedd darpar gleientiaid DELI. |
| 4.5 | Hybu recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a chynyddu amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr a chymunedau lleol yng Nghymru; hybu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr o wahanol | Darparu arian cyfatebol drwy gyfrwng trefniant cyllido tair-blynedd gyda'r sector AU ar gyfer Consortiwm Rhyngwladol Cymru hyd 2012. | | | ■ | Rheolwr Ewropeaidd / Rhyngwladol | Bob blwyddyn hyd 2012 | Ar amser |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gefndiroedd ethnig a diwylliannol. | | | | | | | |
| 4.6 | SAUau yn gallu meincnodi'n effeithiol a deall gweithgareddau CCC (CSR) ac amgylcheddol a chymharu'r rhain â pherfformiad corfforaethol presennol. | Y Gymdeithas Amgylcheddol dros Brifysgolion a Cholegau i geisio gwirfoddolwyr o blith SAUau i gymryd rhan yn y prosiect hwn. | ■ | ■ | ■ | Ymgynghor-ydd Ystadau | Awst 2008 - Gorffennaf 2010 | Cymeradwywyd y cyllid. Mae tri SAU Cymreig wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymarfer meincnodi bellach. |
| **5** | | **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon: cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel** | | | | | | |
| 5.1 | Sefydliadau, drwy eu gweithgareddau recriwtio, i gyfrannu at sicrhau y denir amrywiaeth o staff i'r proffesiwn dysgu. | Cynnwys gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw, gan gynnwys cymryd camau i sicrhau y denir amrywiaeth o staff i'r proffesiwn dysgu. Mae hyn yn cynnwys strategaethau HCA y sefydliadau. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu | Tachwedd 2008 | Cyflawnwyd. Cyflwynodd y sefydliadau ddatganiadau monitro blynyddol ym mis Tachwedd 2008. Mae'r holl sefydliadau wedi cynnwys adran briodol ar recriwtio a chadw yn eu strategaethau. |
| 5.2 | Gweithio gyda'r sector i sicrhau bod y proffesiwn dysgu yn denu ystod amrywiol o athrawon dan | Fforwm Recriwtio Hyfforddiant ac Addysg Athrawon y sector (y mae staff CCAUC yn ei fynychu) i roi sylw penodol | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu | Parhaus | Mae'r Fforwm wedi ailwampio ei wefan ac wedi cynnwys proffiliau o |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | hyfforddiant. | i amrywiaeth yn y proffesiwn dysgu. | | | | | | fyfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd. |
| 6 | | **Gwneud iddi Weithio: pwyslais cryf ar ail-gyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd** | | | | | | |
| 6.1 | Ystyried a oes unrhyw faterion yn codi mewn perthynas â grwpiau cydraddoldeb, staff neu fyfyrwyr neilltuol, a dylanwadu ar weithredu yn y dyfodol drwy adolygu gwybodaeth ystadegol bob blwyddyn. | Casglu data priodol i helpu i fonitro perfformiad y sector AU yng Nghymru, gan gynnwys data am staff a myfyrwyr i'w hystyried gan Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Sector. | ■ | | | Dadansodd-ydd Ystadegol | Mai 2008 a Mai 2009 | Mae data 2006/07 a 2007/08 ar fyfyrwyr a staff wedi cael eu casglu at ddibenion monitro ac wedi cael eu trafod yn fewnol. Bydd data 2006/07 a gyhoeddwyd ar wefan CCAUC yn cael eu diweddaru gyda data 2007/08 cyn bo hir. |
| 6.2 | Sicrhau bod CCAUC yn rhoi cyngor ac arweiniad o safon i SAUau ar eu dyletswyddau tuag at fyfyrwyr a staff a meithrin datblygu a | Adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogaeth ganolog ar gyfer gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector AU yng Nghymru. | ■ | ■ | ■ | Pennaeth Trefn Lywodraethol, Arweinydd-iaeth a Gwybodaeth / Uwch Reolwr | Mehefin 2009 | Mae'r Cyngor wedi cytuno ar drefniadau diwygiedig. Byddwn yn ymgynghori â'r sector yn ystod y |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy’n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | lledaenu arfer da ac arloesedd ym maes cydraddoldeb. | | | | | Sicrwydd Sefydliadol | | misoedd nesaf. |
| 6.3 | Sicrhau bod CCAUC yn ymgynghori â rhanddeiliaid allanol ar bob agwedd ar gydraddoldeb ac yn eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn y broses. | Sefydlu grŵp cyfeiriol i gynghori CCAUC ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymwneud â’r sector AU. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Rhagfyr 2009 | Ar amser |
| 6.4 | Hwyluso gwaith ar draws y Cyngor ar faterion cydraddoldeb a rhoi cyngor i’r Bwrdd Rheoli. | Galw o leiaf dri chyfarfod o Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Sector. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Parhaus | Ar amser |
| 6.5 | Sicrhau bod arfer da ar gydraddoldeb i bobl anabl yn cael ei ledaenu drwy’r sector AU ac yn fwy eang. | Comisiynu ymgynghorwyr i adolygu’r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr a staff anabl ar draws y sector drwy adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl y sefydliadau. | ■ | | | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Mehefin 2009 | Ar amser. Gwahoddwyd ymgynghorwyr i dendro am y gwaith ym mis Rhagfyr 2008 ac fe’u penodwyd ym mis Chwefror. Mae SAUau wedi derbyn eu hadroddiadau cyfrinachol unigol a chyhoeddir yr adroddiad cryno ar y sector cyfan ym mis Awst 2009.<br><br>Mae’r digwyddiad lledaenu wedi |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | cael ei ohirio hyd Hydref 2009. |
| 6.6 | Rhoi gwybod am a lledaenu arfer gorau ym maes cydraddoldeb ar draws y sector. | O dan Bartneriaeth AU De-Orllewin Cymru a gyllidir gan CCAUC caiff Canolfan Recordio i Bobl Ddall Prifysgol Abertawe ei lansio ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Caiff y gweithredoedd i'w cyflawni gan y Bartneriaeth eu monitro gan yr Uwch Reolwr Datblygu Strategol. | ■ | | | Uwch Reolwr Datblygu Strategol | Medi 2008 | Cyflawnwyd - mae'r Ganolfan Recordio i Bobl Ddall wedi cael ei lansio. Mae gweithredoedd i'w cyflawni yn cael eu monitro. |
| 6.7 | Rhoi gwybod am a lledaenu arfer gorau ym maes cydraddoldeb ar draws y sector. | O dan Bartneriaeth AU De-Orllewin Cymru a gyllidir gan CCAUC caiff Canolfan Asesu Anghenion (LMA/DSA) ei sefydlu. Caiff y gweithredoedd i'w cyflawni gan y Bartneriaeth eu monitro gan yr Uwch Reolwr Datblygu Strategol. | ■ | | | Uwch Reolwr Datblygu Strategol | Medi 2008 | Mae'r Ganolfan yn cael ei sefydlu ond mae'r amserlen wedi newid oherwydd gofynion hyfforddi. |
| 6.8 | Rhoi gwybod am a lledaenu arfer gorau ym maes cydraddoldeb ar draws y sector. | Sefydlu a chyfrannu at brosiect ymchwil i asesu'r rhwystrau sy'n wynebu menywod Cymru yn nhermau stereoteipio, gwahaniaethu, y bwlch cyflog, a phrinder gofal rhesymol ei bris i blant a phobl oedrannus. | | ■ | | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Rhagfyr 2009 | Ar amser. Gan ddechrau drwy gydweithio â'r Sefydliad Arweinyddiaeth fe fyddwn ni cyn bo hir yn comisiynu ymchwil i asesu'r rhwystrau i gael swyddi rheoli |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | uwch a wynebir gan fenywod ar hyn o bryd mewn AU yng Nghymru. |
| 6.9 | Dealltwriaeth fanwl o'r cynnydd a wnaed yn y sector yn ystod y cyfnod hwn a thynnu sylw at gyflawniadau sefydliadau a meysydd ar gyfer gweithredu neu ymchwilio pellach. | Comisiynu prosiect gwerthuso newydd gyda CCAULI i ymchwilio i'r newidiadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru a Lloegr yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf mewn perthynas â chefnogi myfyrwyr anabl. | ■ | | | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Medi 2008 | Cyhoeddir yr adroddiad terfynol yn yr Hydref 2009. |
| 6.10 | Rhoi gwybod am a lledaenu arfer gorau ym maes cydraddoldeb ar draws y sector. | Gwerthuso'r Cynllun Mentora peilot ar gyfer Menywod mewn AU a gyllidir gan CCAUC. Caiff y gweithredoedd i'w cyflawni o dan Gynllun Mentora Prifysgolion Cymru (CMPC) ar gyfer Menywod mewn Addysg Uwch yng Nghymru eu monitro gan yr Uwch Reolwr Datblygu Strategol. | | ■ | | Uwch Reolwr Datblygu Strategol | Ionawr 2009 | Cyflawnwyd. Cwblhawyd y gwerthusiad ac oherwydd y canlyniadau cadarnhaol gwnaed cais arall am gyllid sy'n cael ei ystyried. |
| 6.11 | Sicrhau bod CCAUC yn gweithio'n agos ac effeithiol â'r sector mewn perthynas â chydraddoldeb. | Dechrau cyfres bellach o ymweliadau â SAUau gyda'r nod o ddarganfod y prif sialensiau sy'n wynebu SAUau unigol a'r sector yn ei gyfanrwydd. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Parhaus | Parhaus ac ar amser |
| **7** | | **Cyflogaeth** | | | | | | |
| 7.1 | Ystyried goblygiadau'r | Cadw golwg ar hynt y | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr | Parhaus | Parhaus |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mesur Cydraddoldeb a chysoni ei ganlyniadau gyda'n gwaith cydraddoldeb mewnol ac allanol. | Mesur Cydraddoldeb. | | | | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / AD | | |
| 7.2 | Ymdrin â phob llinyn cydraddoldeb mewn ffordd gydlynol a chyfannol er mwyn lleihau biwrocratiaeth a sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif-ffrydio'n briodol yn ein gweithgareddau craidd. | Datblygu un Cynllun Cydraddoldeb ac un cynllun gweithredu cyffredin. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / AD | Gorffennaf 2008 | Datblygwyd a chyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2008. |
| 7.3 | Adroddiad ar sut y mae CCAUC wedi cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol. | Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun Cydraddoldeb a holl weithgareddau CCAUC ym meysydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn fewnol ac allanol. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / AD | Rhagfyr 2008 a Rhagfyr 2009 | Cyhoeddwyd Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2008 ym mis Ionawr 2009. |
| 7.4 | Mae gweithdrefnau Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'u gwreiddio'n gadarn o fewn CCAUC. | Parhau i sicrhau bod yr holl staff yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn deall y polisi AEC drwy gynnal hyfforddiant staff a datblygu ein gweithdrefnau AEC ymhellach. | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Parhaus | Caiff yr Arweiniad ar AEC ei ddiweddaru ym mis Ionawr 2009. Adnoddau Dynol sydd bellach yn cydlynu AECau mewnol. |
| 7.5 | Parhau i ddatblygu dealltwriaeth CCAUC ar draws y chwe llinyn cydraddoldeb i helpu i | Ystyried a datblygu cysylltiadau â chymdeithasau a chyrff cydraddoldeb megis | ■ | ■ | ■ | Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Rhagfyr 2009 | Cyfarfu'r URhCA â Chyfarwyddwr Stonewall Cymru ym mis |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | lunio polisi CCAUC. | Stonewall Cymru. | | | | | | Tachwedd 2008 a mynychodd Cynhadledd Ymchwil LGBT yr UHC (ECU) ym mis Mawrth 2009. |
| 7.6 | Sicrhau nad yw ein gweithdrefnau caffael yn anfwriadol yn rhoi unrhyw grwpiau cydraddoldeb dan anfantais. | Gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb o: yr Adolygiad Blynyddol o Bolisïau, Gweithdrefnau ac Offer Caffael. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Caffael | Tachwedd 2008 | Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol ar 26 Mai 2009, yn unol â'r broses AEC newydd ar gyfer polisïau mewnol. |
| 7.7 | Sicrhau nad yw ein gweithdrefnau caffael yn anfwriadol yn rhoi unrhyw grwpiau cydraddoldeb dan anfantais. | Defnyddio Templedi Asesu Risg Caffael Cynaliadwy (sy'n cynnwys Cydraddoldebau) ar gaffaeliadau o dros £25K gan gynnwys TAW. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Caffael | Tachwedd 2008 | Gwneir defnydd parhaus o'r Templedi Asesu Risg ar bob caffaeliad o dros £25K gan gynnwys TAW. |
| 7.8 | Sicrhau bod yr holl staff yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'n gweithdrefnau caffael, gan gynnwys materion cydraddoldeb. | Hyfforddiant ar y Templedi Asesu Risg Caffael Cynaliadwy uchod (sy'n cynnwys Cydraddoldebau) i reolwyr contractau. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Caffael | Tachwedd 2008 | Rhoddir hyfforddiant ar sail barhaus, wedi'i ymgorffori yn y broses dendro ffurfiol. Hefyd cynhwysir gorolwg yn y sesiwn cyflwyno ar gaffael i staff. |
| 7.9 | Ymgymryd â gwaith manwl ar faterion cydraddoldeb mewnol | Galw o leiaf 3 chyfarfod o'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mewnol i | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Pennwyd rolau ar gyfer Grŵp Cydraddoldeb ac |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gan adrodd i Fwrdd Rheoli CCAUC. | hwyluso gwaith ar draws y Cyngor ar gydraddoldeb. | | | | | | Amrywiaeth Mewnol CCAUC. Lluniwyd Cylch Gorchwyl a chytunwyd arno gan y Bwrdd Rheoli. Cyfarfodydd a gynhaliwyd: 21 Ionawr 2009 17 Mawrth 2009. Cyfarfod nesaf: 16 Mehefin 2009. |
| 7.10 | Gwella hygyrchedd gwybodaeth i bob rhanddeiliad mewnol ac allanol. | Cyflwyno a monitro gweithrediad Canllaw Arddull CCAUC a'r polisi a chanllawiau ar wybodaeth hygyrch. Codi ymwybyddiaeth y staff yn y maes hwn lle y canfyddir bylchau. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Cyfathreb-iadau | Medi 2009 | Cwblhawyd a lansiwyd y Canllaw Arddull ym mis Mai 2008, gan ymgorffori arfer da mewn cyfathrebiadau hygyrch.<br><br>Drafftiwyd y polisi a chanllawiau ar wybodaeth hygyrch, ond fe'u lledaenir ym mis Gorffennaf 2009 yn dilyn adolygiad o bolisïau cyfathrebu. (Ystyrir papurau ar gyfathrebiadau gan y Bwrdd |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Rheoli ym mis Mai a mis Gorffennaf.)<br><br>Caiff y Canllaw Arddull ei fonitro'n barhaus, a'i ail-lansio ym mis Gorffennaf 2009.<br><br>Atgoffir staff yn rheolaidd o arfer da. |
| 7.11 | Gwella hygyrchedd gwybodaeth i bob rhanddeiliad mewnol ac allanol. | Gwella dyluniad a hygyrchedd gwefan CCAUC a'i gwneud yn haws ei defnyddio. | ■ | | | Rheolwr Cyfathreb-iadau | Cwblhau pensaernïaeth gwybodaeth Ionawr 2009;<br><br>Cwblhau dyluniad Ebrill 2009;<br><br>Adeiladu gwefan o Fai 2009;<br><br>Rhoi gwybodaeth ar y wefan newydd o Orffennaf 2009. | Dechreuwyd adolygu'r wefan yn yr Hydref 2009, a chynhwysodd arolwg defnyddwyr. Mae gwybodaeth wedi cael ei haildrefnu i'w gwneud hi'n haws dod o hyd iddi ar y wefan. |
| 7.12 | Gwella hygyrchedd gwybodaeth i bob | Gweithredu'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Cyfathreb- | Ebrill 2009 | Drafftiwyd, ond yn ymgymryd ag |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy’n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | rhanddeiliad mewnol ac allanol. | newydd. | | | | iadau / Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | | adolygiad o bolisïau cyfathrebu.<br><br>Trafodwyd gyda staff eraill, a gwneir newidiadau pellach erbyn Gorffennaf 2009, pan gyflwynir hi i’r Bwrdd Rheoli. |
| 7.13 | Gwella hygyrchedd gwybodaeth i bob rhanddeiliad mewnol ac allanol. | Cynhyrchu a gweithredu Polisi Gwybodaeth Hygyrch. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Cyfathreb-iadau / Uwch Reolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Ebrill 2009 | Gweler 7.10. |
| 7.14 | Gwella proffil CCAUC fel cyflogwr a phroffil y sector yn ei gyfanrwydd drwy ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. | Datblygu portffolio o luniau ac astudiaethau achos i’w defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd yn ystod y 12 mis nesaf, gan gynnwys delweddau cadarnhaol o amrywiaeth. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr Cyfathreb-iadau | Rhagfyr 2009 | Ar amser. |
| 7.15 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Awtomeiddio drysau’r brif fynedfa i Gwrt Linden. Rheolwr Swyddfa i ystyried y dewisiadau a threfnu i’r gwaith gael ei wneud. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Mawrth 2008 | Cwblhawyd y gwaith ac mae’r drysau wedi’u hawtomeiddio - Ebrill 2008. |
| 7.16 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Dylid darparu arwyddion sy’n cydymffurfio â’r Arweiniad Arfer Gorau yn lle’r arwyddion presennol | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Ebrill 2008 | Mae arwyddion a oedd yn eiddo i CCAUC wedi cael eu newid am |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yn yr adeilad. | | | | | | arwyddion sy'n cydymffurfio â'r arfer gorau - Ebrill 2008. |
| 7.17 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Dynodi parcio hygyrch priodol i staff ac ymwelwyr anabl yn swyddfeydd CCAUC yng Nghaerdydd. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Awst 2008 | Cwblhawyd Awst 2008. |
| 7.18 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Dylid gostwng handlenni drysau'r fynedfa a drws y dderbynfa i uchder o 1 metr i gydymffurfio â'r arfer gorau a dylid gosod paneli gwydr ychwanegol yn nrysau'r fynedfa ac addasu'r goleuo yn y cyntedd fel y gall rhywun weld y tu mewn i'r adeilad cyn dod i mewn. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Mawrth 2008 | Cwblhawyd Mawrth 2008 |
| 7.19 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Gosod system dolen anwythol wrth ddesg y dderbynfa a dysgu staff rheng flaen sut i'w defnyddio. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Mawrth 2008 | Cwblhawyd Mawrth 2008 |
| 7.20 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Darparu seddau ychwanegol drwy'r adeilad - gan gynnwys y dderbynfa ac ystafelloedd cyfarfod - i gynnwys cadeiriau gyda breichiau cymwysadwy a chyda a heb freichiau. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Mai 2008 | Darparwyd cadeiriau newydd Ebrill 2008. |
| 7.21 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Darparu system dolen anwythol gludadwy i'w defnyddio unrhyw le yn swyddfeydd CCAUC. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Ebrill 2008 | Prynwyd dolen anwythol gludadwy ac mae ar gael ers |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy’n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Mawrth 2008. |
| 7.22 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Datblygu Gweithdrefnau Ymgilio mewn Argyfwng i Bobl Anabl ar gyfer staff ac ymwelwyr lle y bo angen. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Ebrill 2008 | Cwblhawyd a chyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008. |
| 7.23 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Darparu teithio fertigol rhwng maes parcio’r islawr a’r llawr uchaf / cwrt. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Trafodaethau ar y gweill ag asiant rheoli’r perchennog. | Cyfrifoldeb perchennog y safle yw hwn. Rhoddwyd copi o adroddiad mynediad DGSA (DDA) CCAUC i’r asiant rheoli. Trafodwyd gosod y lifft gyda rheolwr y safle. |
| 7.24 | Gwella hygyrchedd ar gyfer staff neu ymwelwyr anabl. | Gwella hygyrchedd yr adeilad, gan gynnwys y cwrt, y meysydd parcio a’r ardaloedd cymunedol. | ■ | | | Rheolwr Cyfleusterau | Trafodaethau ar y gweill ag asiant rheoli’r perchennog. | Rhoddwyd copi o’r adroddiad mynediad i berchennog Cwrt Linden. Cafwyd gwared â’r bin yng nghanol y cwrt ym mis Gorffennaf 2008.<br><br>Ail-farciwyd lleoedd parcio hygyrch, gweler 7.17. |
| 7.25 | Cyfrannu at fonitro ac at gynllunio gweithredoedd. Cynhyrchu adroddiad sy’n darparu | Cyhoeddi data’n ymwneud â staff ac ymgeiswyr bob blwyddyn (Ebrill - Mawrth 07/08, Mai - Tachwedd 08) i gyfrannu at y broses | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Mai i Dachwedd ar gyfer 2008 yn unig, Rhagfyr hyd | Darparwyd adroddiad mis Mai. Cynhyrchwyd yr adroddiad i |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy’n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | dadansoddiad llawn. | monitro a chynllunio gweithredoedd.<br><br>• Data am y staff presennol<br>• Data am ymgeiswyr<br>• Data am ddyrchafiadau<br><br>Ni ellir cyhoeddi’n llawn yr adroddiad data am staff gan y byddai’n bosibl adnabod unigolion o’r data ac y byddai hyn yn groes i’r Ddeddf Gwarchod Data. Gall yr adroddiad data am ymgeiswyr gael ei gyhoeddi’n llawn. | | | | | Dachwedd wedi hynny | gynnwys mis Rhagfyr yn unol â dyddiadau’r Cynllun Cydraddoldeb ac mae adroddiadau ‘wedi’u sensro’ wedi cael eu trosglwyddo i’r Cydlynydd Anabledd ac Amrywiaeth i’w cyhoeddi. |
| 7.26 | Pob aelod staff i ddysgu am y gofynion deddfwriaethol ac arfer gorau cyfredol. | Parhau â rhaglenni hyfforddiant amrywiaeth:<br>Gorfodol i bob aelod staff newydd;<br>Hyfforddiant gloywi i staff presennol;<br>Hyfforddiant a hyfforddiant gloywi i Aelodau’r Cyngor.<br>Cynnal y rhaglen ym mis Mehefin bob blwyddyn. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Cynhaliwyd rhaglenni ym mis Tachwedd a chynhelir rhaglenni pellach ar ddechrau 2009.<br>Adolygiad o’r modd y darperir hyfforddiant C ac A ar y gweill.<br>Cynigion i’w rhoi gerbron y Bwrdd Rheoli ym mis Gorffennaf 2009.<br>Hyfforddiant C ac A i Aelodau’r |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Cyngor yn cael ei ystyried ar gyfer Gorffennaf 2009. |
| 7.27 | Sicrhau bod gan CCAUC fecanweithiau cefnogi penodol yn eu lle ar gyfer staff. | Datblygu rhaglen o hyfforddiant ar gyfer grwpiau penodol o staff:<br>• Hyfforddiant Ymgynghorydd Triniaeth Deg<br>• Hyfforddiant Swyddog Ymchwilio<br>• Hyfforddiant Asesu Effaith. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Hyfforddwyd pum Ymgynghorydd Triniaeth Deg ychwanegol. Hyfforddwyd pedwar Swyddog Ymchwilio Ychwanegol. Ymgymerwyd â hyfforddiant Asesu Effaith ar ddechrau 2008. Cafodd y polisi Triniaeth Deg ac Urddas yn y Gwaith ei adolygu, ei ddiwygio a'i ail-lansio. |
| 7.28 | Sicrhau bod CCAUC yn cwrdd â'r gofynion penodol ar gyfer proses recriwtio deg, agored a thryloyw a bod penderfyniadau wedi'u seilio ar y gallu i wneud y swydd. | Sicrhau bod yr holl staff sydd ynghlwm wrth y broses recriwtio yn dilyn canllawiau deddfwriaethol ac arfer gorau.<br><br>Paratoi DVD ar gyfer staff sydd ynghlwm wrth y broses recriwtio.<br><br>Adnoddau Dynol ynghlwm wrth bob cam o'r broses ddewis, gan gynnwys llunio | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus ac yn ôl yr angen | Swyddi gwag yn 2008:<br>Uwch Reolwr Sicrwydd Ariannol;<br>Cyfrifydd Ariannol;<br>Gweinyddydd Cyfarwyddiaeth;<br>Uwch Weinyddydd;<br>Swyddog Prosiectau. |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | rhestr fer a chyfweliadau.<br><br>CCAUC hefyd yn hysbysebu pob swydd yn y ganolfan waith a thrwy Right Coutts. | | | | | | Rhaglen recriwtio a dewis wedi'i threfnu a disgwylir iddi redeg ym mis Medi 2009. |
| 7.29 | Gwella proffil CCAUC fel cyflogwr a darparu gwybodaeth i wella a datblygu gweithdrefnau. | Canfyddiadau allanol o CCAUC fel cyflogwr. Datblygu cynllun gweithredu wedi'i seilio ar argymhellion o'r asesiad.<br><br>Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Riley's (darparwyr hysbysebu) a datblygir cynllun gweithredu o hyn a roddir gerbron y Bwrdd Rheoli i'w gymeradwyo. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Dechrau Hydref 2008 | Cynhaliwyd grwpiau ffocws. Cynllun gweithredu wedi'i gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli ym mis Hydref 2008. Camau'n cael eu cymryd i ddatblygu a gwella'r gweithdrefnau recriwtio, e.e. adolygiad o'r wybodaeth yn y pecyn gwneud cais, adolygiad o gynnwys disgrifiadau swydd. |
| 7.30 | Monitro a gwerthuso proses gwneud cais newydd CCAUC. | Arolwg ymhlith ymgeiswyr am swyddi i gael eu barn am ba mor hygyrch a hawdd ei defnyddio yw'r broses, ar ffurf copi caled ac electronig. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Rhagfyr 2008 | Gwnaed yr arolwg, cyfradd dychwelyd o 10% ond roedd yr adborth yn ffafriol. |
| 7.31 | Gwella amrywiaeth staff CCAUC. | Datblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Rhagfyr 2008 | Dyddiau gwirfoddoli |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | perthnasol. CCAUC i ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys dyddiau gwirfoddoli yn y polisi Absenoldeb Arbennig. Cynnig i'w roi gerbron y Bwrdd Rheoli / Cyngor Gwaith / Pwyllgor AD. | | | | | | wedi'u cymeradwyo a'u cynnwys yn y polisi Absenoldeb Arbennig. Ymgymerwyd â lleoliadau profiad gwaith a dogfennwyd gwerthusiad. Rhan o Grŵp Llywio a Rhwydwaith SEWEN. Hefyd yn rhan o rwydwaith BIG. Hysbysebir ar gynlluniwr wal AWEMA bob blwyddyn. Rhoddwyd hysbyseb gydag Urban UK. |
| 7.32 | Gwella amrywiaeth staff CCAUC. | Gwerthuso'r rhaglen profiad gwaith i sicrhau bod y polisi a'r canllaw yn effeithiol a nodi a gwneud unrhyw welliannau sydd eu hangen. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Ymgymerwyd â lleoliad gwaith ym mis Gorffennaf 2008. Gwerthuswyd a dogfennwyd y lleoliad. Bu'n llwyddiant o safbwynt y ddwy ochr. Mae Menter Gweithredu |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy’n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Cadarnhaol yn cael ei drefnu ar gyfer Adnoddau Dynol ar hyn o bryd gyda’r posibilrwydd o leoliad gweinyddol o fewn y tîm Strategaeth, Dysgu a Chyllido. |
| 7.33 | Gwella amrywiaeth staff CCAUC. | Gwerthuso perfformiad CCAUC yn erbyn cyrff eraill drwy ddefnyddio data meincnodi. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Cynhyrchir data Gwybodaeth Rheoli misol ar gyfer y Bwrdd Rheoli. Data cyfrifiad yw’r data sydd ar gael. Yn disgwyl gwybodaeth gyfrifiad newydd er mwyn gallu cynhyrchu gwybodaeth feincnodi bellach. Cysylltwyd â Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad i gael data meincnodi, ond nid yw gwybodaeth fonitro ar gael. |
| 7.34 | Gwella amrywiaeth | Hysbysebu ar gynlluniwr | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a | Awst ar gyfer | Hysbysebwyd |

| | Canlyniadau Arfaethedig | Gweithredoedd | Anabl-edd | Rhyw | Hil | Deiliad Swydd sy'n Gyfrifol | Amserlen | Cynnydd Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | staff CCAUC. | wal AWEMA (Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan). Dosberthir y cynlluniwr hwn i grwpiau cymunedol ar hyd a lled Cymru. | | | | Hyfforddiant | cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2008 | gydag AWEMA ac Urban UK ar gyfer 2009. |
| 7.35 | Gwella a datblygu arfer gorau ym maes amrywiaeth yn CCAUC. | Mae CCAUC yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb De-Ddwyrain Cymru (SEWEN) ac o'r Grŵp Llywio. Mae hyn yn galluogi CCAUC i gael a rhannu arfer gorau ar faterion cydraddoldeb. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Yn mynychu bob chwarter. Hefyd yn aelod o rwydwaith BIG. |
| 7.36 | Ymgymryd â gwaith manwl ar faterion cydraddoldeb mewnol gan adrodd i Fwrdd Rheoli CCAUC. | Galw o leiaf 3 chyfarfod o'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Fewnol i hwyluso gwaith ar draws y Cyngor ar gydraddoldeb i bobl anabl ac ar gydraddoldebau eraill. | ■ | ■ | ■ | Rheolwr AD a Hyfforddiant | Parhaus | Fel 7.9 |